



Diffyg Buddsoddi yn y Gymraeg ac ar y Gymraeg: Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

1. Cyflwyniad - Toriadau, Tanfuddsoddi a Diffyg Strategaeth

Mae'r ganran o wariant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei fuddsoddi mewn prosiectau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg yn bitw iawn - dim ond 0.16% o holl wariant y Llywodraeth. Mae hynny'n cymharu'n anffafriol iawn gyda gwlad fel Gwlad Basg lle buddsoddir cyfran br on saith gwaith yn fwy o'u cyllideb yn benodol ar yr iaith o'i gymharu â'r sefyllfa yma (£84 miliwn o gyllideb rhanbarthol 2014).

Ar ben hynny, dangosodd ein hymchwil y tanfuddsoddi difrifol sy'n digwydd o fewn gwariant prif-ffrwd y Llywodraeth - gyda llai nag 1% o wariant ar raglenni megis addysg i oedolion yn y gymuned yn cael ei wario ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Yn ôl cyllideb 2014-15, cafodd y gwariant ar 'yr iaith Gymraeg' ei dorri o £25,076,000 y flwyddyn gynt i £24,376,000 yn 2014-15. Cynlluniwyd iddo gwmpo ymhellach i £23,511,000 yn 2015-16. Dyna doriad o £700,000 y flwyddyn hon a £856,000 yn 2015-16.

Cafwyd nifer o newidiad o fewn y flwyddyn ariannol hefyd, er enghraifft y toriadau o £700,000 gofynnwyd i'r canolfannau Cymraeg i Oedolion ei wneud o fewn pedair wythnos, ar ben toriadau eraill oeddent eisoes yn gorfod ymdopi â nhw. Oherwydd y newidiadau hyn, nid yw'n glir p'un ai ydynt yn doriadau 'net' ai peidio - mae diffyg tryloywder a chynllunio ar gyfer y penderfyniadau hynny yn peri pryder am absenoldeb strategaeth ariannol gall ar gyfer y Gymraeg. Mae nifer o enghreifftiau lle gall cynyddu'r canran o weithgareddau Cymraeg sy'n dod o raglenni yng ngwariant prif-ffrwd y Llywodraeth.

Credwn fod y penderfyniadau a wnaed gan y Llywodraeth, hyd yn oed mewn cyfnod o lymder, yn fyrbyyll ac yn amlygu diffyg strategaeth trawsbortffolio ynghylch effaith y gyllideb ar y Gymraeg. Credwn y gellid fod wedi gwneud penderfyniadau llawer gwell hyd yn oed, pe byddai strategaeth drawsbotffolio clir gan y Prif Weinidog a'r gwasanaeth sifil.

Argymhellwn fod y pwyllgor yn mynnu atebion gan weision sifil yn Uned y Gymraeg ynghylch eu penderfyniadau, ynghyd â'u methiant i wneud asesiad trawsbotffolio o effaith gwariant ar y Gymraeg a'i gyhoeddi. Mae eu hanallu i gyflawni hynny o fewn 19 mis yn codi cwestiynau mawr sydd angen eu hyateb. Credwn y dylai'r Cynulliad ofyn i Gomisiynydd y Gymraeg ymgymryd â'r gwaith yn lle.

Cyllideb Hyrwyddo'r Gymraeg

Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru toriad o £1.5 miliwn yn ei gwariant ar hyrwyddo'r Gymraeg dros ddwy flynedd.

Ers hynny, rydym wedi clywed cyhoeddiadau dryslyd am arian ychwanegol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, nid yw'n glir a oes arian ychwanegol o gwbl. Yn ôl dadansoddiad gan un o'n haelodau, ymddengys fod Llywodraeth Cymru wedi torri tua £2.3 miliwn oddi ar gyllideb Cymraeg i Oedolion ers y Gynhadledd Fawr.

Ymddengys felly, nid yw'r cyhoeddiadau yn newid y ffaith mai ond 0.16% o gyllideb y Llywodraeth sy'n cael ei wario ar hyrwyddo'r Gymraeg. Yng ngwlad y Basg, gwelir buddsoddiad oddeutu saith gwaith yn fwy na hynny, ac mae hynny'n rhannol gyfrifol am y twf a welwyd yn y Fasgeg dros y degawdau diwethaf.

Credwn y dylai'r Cynulliad fel y corff graffu yn fanwl ar gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ynghylch 'arian ychwanegol' ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a gyhoeddwyd dros y misoedd diwethaf ynghyd â'r gymhariaeth rhwng Cymru a Gwlad y Basg.

Ymhellach, credwn y dylai'r Cynulliad sicrhau bod y gyllideb hywyddo yn pedryblu dros gyfnod rhesymol o amser.

Arian Prif-ffrwd - Dros 99% yn fuddsoddiad uniaith Saesneg

Mae'n amlwg bod tanfuddsoddi difrifol ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg mewn nifer o gyllidebau prif ffrwd y Llywodraeth - gan gynnwys addysg ac iechyd. Mae'r Llywodraeth yn honni mai 'diffyg galw' sy'n achosi hynny, credwn fod hynny'n amlygu meddylfryd hen-ffasiwn y gwasanaeth sifil sy'n meddwl bod gwasanaeth Saesneg yn hanfodol ac yn ddiodyn, tra bod gwasanaeth Cymraeg yn rhywbeth atodol ac yn ddewisol.

Mae llai na phedair mil o bunnau allan o gyllideb o bron i £17 miliwn sydd wedi ei wario ar addysg cyfrwng Cymraeg i oedolion yn y gymuned, yn ôl gwybodaeth a ryddhawyd i ni gan Lywodraeth Cymru o dan y ddeddf rhyddid gwybodaeth am wariant yn flynyddoedd ariannol 2009/10 i 2011/12. Yn wir, mae nifer o brif gyllidebau'r Llywodraeth yn ariannu bron dim darpariaeth yn Gymraeg, gyda dros 99% o'r arian yn mynd ar ddarpariaeth Saesneg.

Yn ôl ein gwybodaeth, dros y dair blynedd diwethaf, allan o 90,477 prentisiaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, dim ond 354 oedd trwy gyfrwng y Gymraeg, neu lai na phedwar ym mhob mil o brentisiaethau. Mae'r ffigyrau hefyd yn dangos mai 0.02% yn unig o'r un deg saith miliwn a wariwyd ar ddysgu oedolion yn y gymuned dros dair blynedd, neu £2 am bob £10,000, a ddefnyddiwyd ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Yn un o'r blyneddau, chafodd dim un geiniog ei wario o'r gyllideb ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros yr un cyfnod, 0.3% yn unig, neu £3 am bob £1000, o wariant ar Ddysgu Seiliedig ar Waith a ariannodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Gweler atodlen 1 am y ffigyrau manwl.

Mae'r ffigyrau'n ysgytwolac yn anodd iawn i'w credu. Maent yn dangos bod y Gymraeg yn cael ei thanseilio'n llwyr gan arian prif-lif Llywodraeth Cymru. Mewn gwirionedd mae'r Saesneg, un o ieithoedd mwyaf pwerus y byd, yn derbyn cymhorthdal enfawr gan drethdalwyr Cymru. Mae patrymau gwariant y Llywodraeth yn lleihau defnydd y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio. Felly tra bod y Llywodraeth yn clustnodi symiau cymharol fach o arian i fentrau Cymraeg eu hiaith, mae effaith Cymraeg y prosiectau hynny'n cael eu tanseilio a gwrth-droi'n llwyr gan bolisiau eraill. Nid ydy Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn ffordd gydlynus felly.

Manifesto Byw - ymateb i argyfwng y Gymraeg

Ym mis Rhagfyr 2012, wedi cyhoeddiad canlyniadau argyfyngus y Cyfrifiad, cyhoeddodd ein Maniffesto Byw a alwodd am y 2 newid ariannol, ymysg degau o argymhellion eraill, er mwyn sicrhau twf yn yr iaith:

"Adolygiad cyflawn o holl wariant y llywodraeth, gan gorff annibynnol fel Comisiynydd y Gymraeg, ac asesu perthynas y gwariant hwinnw â'r Gymraeg - sef mesur ôl-troed ieithyddol y gwariant."

"O ystyried y twf sydd wedi bod yn nifery siaradwyr Basgeg mewn cyfrifiadau ers 1991, dylid cynyddu'r adnoddau a roddir i hyrwyddo'r Gymraeg i lefelau'r wlad honno, sef pedair gwaith cymaint â'r gwariant presennol yng Nghymru."

Gwasanaeth Sifil yn methu â chyflawni

Mewn cyfarfod rhyngom a'r Prif Weinidog ym mis Chwefror 2013, fe gytunodd i gynnal yr adolygiad fel y gofynnwyd amdano uchod yn ein Maniffesto Byw. Ers hynny, rydym wedi gweld oedi rhag gweithredu gan y gwasanaeth sifil, sydd wedi creu llawer o waith papur, ond dal heb gyhoeddi yr un asesiad.

Wedi tua 18 mis o aros am gyhoeddiad yr asesiad, a sawl addewid, ysgrifennom unwaith eto gan ofyn:

"Mewn cyfarfod gyda ni ar Chwefror 6ed 2013, dywedoch wrthym y byddai'ch Llywodraeth yn cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg o bob ceiniog a warir gan Lywodraeth Cymru ar draws eich holl adrannau. Pryd bydd yr asesiad yn cael ei gyhoeddi?"

Cawsom ymateb yn datgan bod 'Asesiad effaith **newidiadau**'r gyllideb ar y Gymraeg a chydraddoldebau eraill' i'w gyhoeddi, ac y byddai 'Dadansoddiad Canlyniadau Gwariant: Ymarfer gwbl newydd ar gyfer 2014 ydy hwn sy'n gofyn i adrannau adnabod prif raglenni gwariant sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg o fewn eu meysydd', ond doedd dim asesiad cynhwysfawr i'w gyhoeddi yn lle dywedasant:

"... rwy'n siŵr y byddwch yn gweld nad oes 'cyhoeddiad' fel allbwn i'r gwaith hwn, ond yn hytrach, proses gyllidebu'r sefydliad ydyw ... Mae cynnydd a gwaith sylweddol wedi digwydd dros y flwyddyn diwethaf..."

Yn lle derbyn yr asesiad cyflawn felly, derbyniom ffurflen a fydd yn cael ei ddefnyddio gan weision sifil wrth wneud penderfyniadau ariannol. Felly, rydyn ni, drwy ychydig o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn unig, wedi llwyddo cyhoeddi mwy na'r gwasanaeth sifil mewn 19 mis erbyn hyn.

Rydym wedi adnabod nifer o feysydd lle mae tanfuddsoddi, galwn ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r meysydd hyn drwy gynyddu'r canran sy'n mynd at weithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Hefyd, dylai Comisiynydd y Gymraeg gyhoeddi asesiad cyflawn o effaith ar y Gymraeg holl wariant Llywodraeth Cymru ar draws pob adran.

Anwybyddu'r Gynhadledd Fawr - y Llywodraeth yn anwybyddu ei ymgynghoriad ei hunan

Adeg cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fwriad i gynnal ymgynghoriad ynghylch sefyllfa'r iaith, croesawsom y fenter, gan ddisgwyl casgliadau gwrthrychol a gweithredu arnynt. Nid dyna rydyn ni wedi ei gweld ers hynny.

Yn ôl yr adroddiad am gasgliadau'r Gynhadledd Fawr¹:

“Un thema gyffredinol, a chwbl allweddol, a fu'n rhedeg drwy'r holl gyfraniadau [oedd yr angen] i'r Llywodraeth gynyddu ei buddsoddiad ariannol yn y Gymraeg er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol.” Tudalen 8, Iaith fyw: dweud eich dweud, Gorffennaf 2013

Yn lle hynny, rydyn ni wedi gweld toriadau yn nghyllideb hyrwyddo'r Gymraeg a diffyg gweithredu ar y problemau ynghylch cyllidebau prif-ffrwd y Llywodraeth.

Pergyl i Annibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg

Pryderwn yn fawr am rym ariannol Llywodraeth Cymru dros Gomisiynydd y Gymraeg, corff sydd, yn statudol, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn gyfrifol am reoli Llywodraeth Cymru a'i gydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith.

Nid yw'n bosib i'r Comisiynydd weithredu'n wrthrychol, ac yn gwbl annibynnol. A fydd y Comisiynydd yn gallu ochri â hawliau iaith y cyhoedd yn erbyn Llywodraeth sydd wedi torri ei wariant y llynedd, ac y gallai parhau i wneud toriadau pellach ar unrhyw adeg? Mae sefyllfa Comisiynydd y Gymraeg yn wahanol i nifer o Gomisiynwyr eraill, gan fod ganddi rymoedd statudol llawer iawn mwy pwerus oherwydd diffyg cydymffurfiaeth nifer o gyrff i gadw at eu dyletswyddau ers degawdau.

Gwelwyd toriad o 10% yn 2014-2015 i gyllideb Comisiynydd y llynedd. Deallwn fod y Llywodraeth yn ystyried toriadau pellach i'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mewn llythyr o Ddirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg i'r Comisiynydd yn Ionawr 2014, sy'n cadarnhau'r toriad, dywed: *"Fe fydd Llywodraeth Cymru yn ymfyn am drafodaethau penodol rheolaidd ar gyllideb gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn y dyfodol."*

Dadleuom yn ystod cyfnod pasio Mesur y Gymraeg 2011 y dylid ymdrin â chyllideb y Comisiynydd yn yr un modd â'r Archwilydd Cyffredinol, corff sy'n derbyn arian yn syth o grant bloc Cymru. Credwn y dylai'r Cynulliad deddfu er mwyn sefydlu'r un system ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn sgil y profiad anffodus iawn dros y blynyddoedd diweddar.

Casgliadau:

Credwn felly y dylid:

- pedryblu'r gyllideb ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn agosáu at lefelau buddsoddiad yng Ngwlad y Basg;
- gosod allan cyllideb tymor hirach ar gyfer y Gymraeg fel bod modd cynllunio'n gall ar gyfer twf yr iaith;
- comisiynu Comisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi adolygiad cynhwysfawr o effaith ar y Gymraeg holl wariant Llywodraeth Cymru ar draws pob adran, ac, wedi cyhoeddi'r asesiad, dylai'r Cynulliad weithredu ar newidiadau i'r gyllideb er mwyn sicrhau bod cyfran deg o gyllidebau prif-ffrwd y Llywodraeth yn cael eu buddsoddi yn y Gymraeg;
- deddfu dros gyllideb sefydlog a llif ariannol annibynnol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg er mwyn diogelu annibyniaeth y swydd.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

¹ <http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/131022-a-living-language-have-your-say-cy.pdf>

Atodlen 1 - Enghreifftiau o effaith negyddol ar y Gymraeg o fewn gwariant prif-ffrwd

(a) Mae cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a ddarparwyd drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg ac yn ddwyieithog, ar gyfer y cyfnod 2009/10 i 2011/12 i'w weld isod:

Blwyddyn y Contract	Cyfanswm y Gwariant ar yr holl raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith	Gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Seiliedig ar Waith a ddarparwyd drwy gyfrwng y Saesneg	Gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Seiliedig ar Waith a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg	Gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Seiliedig ar Waith a ddarparwyd yn ddwyieithog
2009/10	£119,579,654.00	£116,694,350.71	£188,925.32	£2,696,377.97
2010/11	£115,545,759.00	£111,387,106.65	£117,708.31	£4,040,944.04
2011/12	£109,373,427.00	£105,413,959.26	£412,196.21	£3,547,271.53

(b) Mae cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a ddarparwyd drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg ac yn ddwyieithog, ar gyfer y cyfnod 2009/10 i 2011/12, yn cael ei ddangos yn y tabl canlynol:

Blwyddyn y Contract	Cyfanswm y Gwariant ar weithgareddau Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Cyfanswm y Gwariant a gyfrifwyd ar weithgareddau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a ddarparwyd drwy gyfrwng y Saesneg	Cyfanswm y Gwariant a gyfrifwyd ar weithgareddau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg	Cyfanswm y Gwariant a gyfrifwyd ar weithgareddau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a ddarparwyd yn ddwyieithog
2009/10	£5,684,838.00	£5,683,894.34	£943.66	£0.00
2010/11	£5,497,838.00	£5,492,697.56	£0.00	£5,140.44
2011/12	£5,684,838.00	£5,680,558.24	£2,743.94	£1,535.82

(c) Mae cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer rhaglenni prentisiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a ddarparwyd drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg ac yn ddwyieithog, ar gyfer y cyfnod 2009/10 i 2011/12 yn cael ei ddangos isod:

Blwyddyn y Contract	Cyfanswm y Gwariant ar Brentisiaethau	Cyfanswm y Gwariant ar Brentisiaethau a ddarparwyd drwy gyfrwng y Saesneg	Cyfanswm y Gwariant ar Brentisiaethau a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg	Cyfanswm y Gwariant ar Brentisiaethau a ddarparwyd yn ddwyieithog
2009/10	£78,818,839.95	£76,917,042.69	£124,526.83	£1,777,270.43
2010/11	£76,787,033.82	£74,023,361.82	£78,224.18	£2,685,447.82

2011/12	£73,358,151.02	£70,702,485.56	£276,465.25	£2,379,200.21
---------	----------------	----------------	-------------	---------------

(d) Mae'r tabl isod yn dangos nifer y prentisiaid a ymgwymerodd â'u fframwaith prentisiaeth drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Nodwyd darpariaeth cyfrwng Cymraeg os oes o leiaf un cymhwyster fframwaith llawn wedi cael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blwyddyn y Contract	Cyfanswm y Prentisiaid	Prentisiaid Cyfrwng Saesneg	Prentisiaid Cyfrwng Cymraeg	Prentisiaid Dwyieithog
2009/10	32,550	31,635	97	818
2010/11	25,517	24,320	85	1,112
2011/12	35,928	34,522	172	1,234